

O lolipops iâ i ddewiniaeth dechnoleg, neu ei absenoldeb

Y mae Jeff Thomas, Swyddol Stiwardiaeth a Chefnogaeth, wedi profi cyfnod y chwe mis diwethaf yn ddiddorol iawn

Golyga fy rôl fy mod yn delio gyda AGLI, Cyngorau Eglwysig a'r cynulleidfaoedd ehangach i gynnig cyngor a chymorth gydag arian ac adnoddau eraill. Y mae cael cyswllt personol gydag unigolion yn wych ac y mae wedi bod yn bleser i helpu ble medrwn.



Pe baech chi, jyst cyn y cloi, wedi sôn am Zoom wrthyf byddwn i wedi cofio yn syth nôl i'm plentyndod a'r lolipop iâ y gallwn brynu am chwe cheiniog. Hwnnw a Fab oedd cynnwys y chwedegau i ni wrth dyfu i fyny. Ers mis Mawrth, beth bynnag, y mae Zoom wedi golygu rhywbeth hollol wahanol ac rwy'n cael mwy a mwy o gyfarfodydd ar y We ac hyd yn oed yn mynychu Cyfarfodydd Cyngor AGLI.

Roeddwn wrth fy modd nos Fercher ddiwethaf allu mynychu cyfarfod o Gyngor AGLI Daugleddau o gysur fy stydi fy hun, pan daeth pymtheg ohonom ynghyd i drafod cyfrifon eglwysig a thopigau cynhyrfus eraill. Roedd yn arbennig o dda i weld Ruth Black yn y cnawd ar lein, ac i roi wyneb at yr enw, gan fy mod wedi bod yn cyd-weithio â hi ar fater yn ymwneud â Sant Mihangel, Rudbaxton.

Yr wyf wedi gallu helpu llawer o eglwysi gyda phroblemau'n codi oherwydd bod banciau yn araf yn gweithredu cyfarwyddiadau ynglyn ag archebion rheolaidd neu hyd yn oed heb eu gweithredu o gwbl. Arweiniodd hyn at daliadau yn cael eu gwneud i'r esgobaeth yn ddamweniol. Yr wyf yn falch i ddweud bod yr eglwysi hynny i gyd sy wedi cytuno i adael y taliad i gadw at eu credyd wedi gallu gwneud hynny, fel y gallodd yr eglwysi hynny a ysgrifennodd ata i yn dweud bod yn well ganddynt gael eu harian yn ôl.

Y mae'r cloi a chau yr eglwysi dros dro wedi golygu, ac yn dal i fod yn fygythiad enfawr i iechyd ariannol ar lefelau eglwysig, AGLI ac Esgobaethol. Byddwn yn annog pawb i ystyried gwneud eu rhoddion wythnosol yn electronig. Y mae dau bosiblwydd: nail ai drwy archeb rheolaidd yn uniongyrchol i gyfrif yr eglwys neu Rodd Uniongyrchol ble mae'r taliadau yn mynd at eich eglwys drwy'r Eglwys yng Nghymru. Chwiliwch am Rodd Uniongyrchol ar gwefan yr Eglwys yng Nghymru.

I orffen hoffwn ddiolch i bawb y bûm yn cysylltu â nhw dros y misoedd diwethaf; y mae pob un, yn ddi-eithriad, wedi bod yn bositif ac wedi pwysleisio'r ateb yn hytrach na'r broblem.